

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (â rhybudd)

**Hilltop View Dental
Practice, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan**

13 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd	18
6.	Y Camau Nesaf.....	20
	Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â rhybudd ar Hilltop View Dental Practice yn 222 Stryd Fawr, Y Coed Duon yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 13 Ionawr 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle

¹Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Hilltop View Dental Practice yn darparu gwasanaethau i gleifion y GIG (oedolion wedi eu heithrio o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau GIG llawn i blant) a chleifion preifat yn ardal Y Coed Duon yn Sir Caerffili..

Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un prif ddeintydd, un rheolwr practis, un hylenydd, un derbynnydd a thair nyrs ddeintyddol. Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol, gan gynnwys gwasanaethau hylenydd a deintyddiaeth gosmetig.

4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Practis Deintyddol Hilltop View yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis ddull o gasglu barn ac adborth gan y cleifion, fel ffordd o asesu ansawdd y gofal a ddarperir.

Ar y cyfan, cawsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu ar gyfer cleifion mewn ffordd ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwella rhywfaint ar gofnodion cleifion a glanhau offer deintyddol.

Gwelsom ar ddiwrnod yr arolygiad fod y ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn ddiogel a bod rhai systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Gwnaethom nifer o argymhellion ynglŷn â gwella gweithdrefnau gweinyddol y practis.

Gwelsom fod yr adeilad yn cael ei gynnal yn briodol ac yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Gwnaethom hysbysu'r practis fod un o'r arwyddion uwchben allanfa dân wedi cwmpo.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis ddull o gasglu barn ac adborth gan y cleifion, fel ffordd o asesu ansawdd y gofal a ddarperir.

Cwblhawyd 16 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob claf eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis, a'u bod yn cael croeso gan y staff. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn fodlon ar y gwasanaeth, dywedodd cleifion "*ydw, rhagorol*" a "*Rwy'n teimlo'n hapus gyda'r tîm yma - fyddwn i ddim am symud*". Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi o ran gweld deintydd. Dywedodd cleifion oedd wedi profi oedi nad oedd hyn yn digwydd yn aml, "*weithiau - ond wedyn rwyf innau'n hwyr weithiau - nid wyf yn poeni'n benodol am y peth*".

Roedd y tîm o staff wedi hen sefydlu ac roeddent wedi bod yn gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn gyfarwydd â'r staff a bod ganddynt ddilyniant o ran gofal am eu bod yn gallu gweld yr un deintydd.

Roedd gan gleifion fynediad at wybodaeth berthnasol am y gwasanaeth deintyddol ac roedd taflenni gwybodaeth am y practis ar gael yn ystafell aros y cleifion. Roedd gan y practis wefan hefyd oedd yn darparu gwybodaeth glir ac yn hawdd ei defnyddio. Er hynny, dylid diweddarau'r wefan i gydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf ar hysbysebu gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Er enghraifft, darparu rhifau cofrestriad ar gyfer pob aelod o staff clinigol, manylion sut y gall cleifion wneud cwyn a'r dyddiad y cafodd y wefan ei diweddarau diwethaf.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod ei wefan yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau'. Roedd arwydd y tu allan i'r practis yn dangos yr amseroedd agor a rhif cyswllt brys ar gyfer gwasanaethau 'y tu allan i oriau'. Dywedodd cleifion wrthym fod rhif cyswllt brys yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis. Gwnaethom gadarnhau hyn.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu gweld yn gyflym pan fydd angen hynny.

Dywedodd pob claf wrthym eu bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth a dywedodd staff wrthym fod dewisiadau triniaeth yn cael eu trafod â chleifion. Er hynny, nid oedd hyn yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. Rydym wedi gwneud argymhellion ynglŷn â chofnodion cleifion yn adran nesaf yr adroddiad hwn (tudalen 9).

Gwelsom rai taflenni hybu iechyd yn ystafell aros y cleifion oedd yn hysbysu cleifion am fwyta'n iach a gofal dannedd i blant, ond nid oedd llawer ohonynt ac nid oeddent yn hawdd i'w gweld.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddarparu gwybodaeth hybu iechyd perthnasol i gleifion.

Nid oedd gan y practis system i asesu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu arni, fel ffordd o asesu ansawdd ei wasanaeth. Dywedodd y rheolwr practis ei fod yn gobeithio y byddai cleifion yn teimlo'n gyfforddus i ddweud eu barn wrth staff.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth gan y cleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Gwnaethom hefyd awgrymu y dylai'r practis ystyried gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gwnaethom sylwi nad oedd llawer o'r arwyddion, hysbysiadau a gwybodaeth i gleifion o amgylch y practis yn gwneud defnydd o arwyddluniau neu ffont mwy o faint ac nad oeddent ar gael mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys Cymraeg.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ac roedd poster yn cael ei arddangos yn yr ystafell aros. Dywedodd y mwyafrif o gleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn. Dywedodd pump o gleifion wrthym nad oeddent yn siŵr sut i wneud cwyn. Gwelsom fod y broses cwynion yn cydymffurfio'n gyffredinol â gweithdrefn y GIG a adwaenir fel 'Gweithio i Wella'² Fodd bynnag, roedd y polisi yn yr ystafell aros yn cyfeirio'n anghywir at Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili, yn

²'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

hytrach na Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Cytunodd y practis i gywiro hyn. Hefyd, nid oedd y polisi cwynion yn cynnwys cyfeiriadau at sefydliadau perthnasol eraill. Ar gyfer cleifion preifat rhaid i'r polisi gynnwys manylion cyswllt AGIC. Ar gyfer cleifion y GIG dylai'r polisi gyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Argymhelliad

Rhaid i'r polisi cwynion ar gyfer cleifion preifat gynnwys manylion cyswllt AGIC. Dylai'r polisi cwynion ar gyfer cleifion y GIG gyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rhaid i'r polisi cwynion gynnwys enw a manylion cyswllt cywir y bwrdd iechyd.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu ar gyfer cleifion mewn ffordd ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwella rhywfaint ar gofnodion cleifion a glanhau offer deintyddol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bum cofnod electronig claf. Ar y cyfan, roedd y cofnodion hyn yn foddhaol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Nid oedd opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi'n gyson yn nodiadau'r cleifion.
- Roedd cynlluniau triniaeth safonol ar gael i gleifion y GIG ond nid oeddent yn cael eu darparu i gleifion preifat.
- Nid oedd gan y practis system gadarn ar waith i gael caniatâd gwybodus gan gleifion.
- Roedd gwiriadau hanes meddygol yn cael eu cynnal, ond nid oeddent yn cael eu gwrth-lofnodi'n gyson gan y deintydd ac nid oedd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei nodi yng nghofnodion cleifion ar bob achlysur. Hefyd, nid oedd manylion dyddiad cwblhau a hanes cymdeithasol wedi eu cynnwys ar y ffurflenni hanes meddygol cychwynnol. Mae hyn yn golygu na fyddai'r deintydd yn ymwybodol o gleifion sy'n ysmegu, na faint o alcohol maent yn ei yfed, sy'n ffactorau risg i rai clefydau fel canser y geg.
- Dylid cofnodi sgrinio am ganser y geg yn nodiadau'r cleifion
- Gwelsom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y driniaeth a ddarparwyd yn cael ei chofnodi'n llawn. Er enghraifft, yng nghofnodion un claf nid oedd radiograff (pelydr-x) cyn triniaeth na chyfiawnhad dros ailosod coron ar ddant molar.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau bod system addas ar waith ar gyfer casglu a chofnodi caniatâd deallus, hanes meddygol, gan gynnwys hanes cymdeithasol, darparu cynlluniau triniaeth a chofnodi opsiynau triniaeth sydd wedi cael eu trafod â chleifion.

Gwelsom hefyd fod y practis yn cael anhawster wrth geisio mynd at gofnodion electronig dau o'r cleifion. Dywedodd staff wrthym fod hon yn broblem oedd

wedi codi o'r blaen. Os na ellir mynd at gofnodion mewn ffordd ddibynadwy yn y practis, mae hyn yn golygu y gall anawsterau godi wrth sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n gyfredol.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau y gellir mynd at gofnodion cleifion mewn ffordd ddibynadwy er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn a chyfredol.

Offer radiograffig

Ar y cyfan gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr x) yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennau perthnasol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a phrofi ar gael ac wedi'u diweddaru. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod y deintydd wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddefnyddio cyfarpar radiograffig yn ddiogel. Roedd y practis yn defnyddio pelydrau-x digidol ac roedd y samplau a welsom o ansawdd da sy'n golygu bod datguddiad cleifion i ymbelydredd gan belydrau X yn cael ei leihau. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond y deintydd oedd yn gwisgo bathodyn dos ymbelydredd personol (a ddefnyddir i gofnodi lefel datguddiad unigolyn i ymbelydredd) ac nad oedd y nyrsys deintyddol yn gwisgo bathodyn. Mae hyn yn golygu nad oedd gan nyrsys ddull o gofnodi eu datguddiad i ymbelydredd.

Argymhelliad

Dylai'r practis gael system gadarn ar waith i sicrhau diogelwch yr holl staff sydd wedi cael eu datguddio i ymbelydredd.

Cadw cyffuriau ac offer brys

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth priodol rhag ofn y byddai claf mewn argyfwng (cwympiad) yn y practis. Roedd staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Gwelsom fod system addas ar waith i newid meddyginiaeth sydd wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben, a'i bod yn cael ei chadw ar wahân ac yn hawdd i'w hadnabod. Mae hyn yn osgoi unrhyw oediad wrth drin cleifion mewn argyfwng. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried pa mor hawdd yw hi i fynd at yr offer hwn mewn argyfwng. Roedd y feddyginiaeth frys gyda'r offer dadebru arall yn ystafell y staff a gwelsom rwystrau posib yn yr ystafell hon fel y ddesg a'r gadair oedd wrth y drws. Gwelsom nad oedd ystafell y staff yn cael ei defnyddio'n aml a bod y drws yn cael ei adael ar agor yn ystod y dydd. Mae hyn yn golygu bod perygl posibl i rywun gael mynediad at y cyffuriau hyn heb ganiatâd.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried trefniadau ar gyfer mynediad hawdd at offer dadebru a storio meddyginiaeth frys yn ddiogel.

Gwaredu gwastraff

Roedd contract cyfredol ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol. Mae hyn yn golygu bod gwastraff yn cael ei waredu mewn dull priodol yn y practis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd ychydig o wastraff clinigol yn neintyddfa'r hylenydd mewn cynhwysydd gwastraff priodol ac nad oedd wedi cael ei waredu'n brydlon.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei gadw mewn cynhwysyddion priodol ac yn cael ei waredu'n brydlon.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y ddeintyddfa ar y llawr cyntaf yn y practis ac roedd y rhain yn cynnwys offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff.

Dadheintio a chadw offer

Roedd y practis yn defnyddio sawl ardal ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd y rhan fwyaf o'r offer yn cael ei lanhau yn y ddeintyddfa ar y llawr cyntaf, gyda sterileiddiwr yn y storfa gyfagos. Ni wnaethom archwilio'r broses ddadheintio yn neintyddfa'r hylenydd ar y llawr daear yn ystod yr arolygiad hwn.

Roedd cyfleusterau golchi dwylo addas ac roedd eitemau untro ar gael er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer dadheintio offer a gwelsom ar y cyfan eu bod yn foddhaol i ddiogelu cleifion rhag croes heintio. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol ynglŷn ag agweddau ar y broses dadheintio a chadw offer:

- 1) Gwelsom rai problemau o ran cynnal a chadw offer ar gyfer glanhau a dadheintio offer yn y practis, fel yr angen am lyfrau cofnodi cynnal a chadw.

Argymhelliad

Gweler Atodiad A ar gyfer yr argymhelliad ynglŷn â chynnal a chadw offer glanhau a sterileiddio.

2) Dywedodd staff wrthym fod offer nad oedd wedi cael ei ddefnyddio ar hambyrddau wedi eu gorchuddio yn cael ei gadw tan y diwrnod nesaf ac nad oedd yn cael ei sterileiddio ar ddiwedd y sesiwn glinigol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)³. **Gwelsom hefyd fod rhywfaint o offer mewn bagiau yn cael ei storio ar arwyneb gwaith agored yn neintyddfa'r hylenydd, yn hytrach na chael ei gadw dan orchudd i osgoi unrhyw heintio.**

Argymhelliad

Dylai unrhyw offer sydd heb ei ddefnyddio ar hambyrddau ar ddiwedd y sesiwn glinigol gael ei ail sterileiddio cyn ei ddefnyddio ymhellach. Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer yn cael ei storio'n briodol, gan gynnwys yr offer yn neintyddfa'r hylenydd.

3) Nid oedd archwiliadau rheoli heintiau'n cael eu cynnal yn y practis ar y pryd. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym eu bod wedi bwriadu cynnal y rhain yn y dyfodol. Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylid cynnal archwiliadau rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn.

Argymhelliad

Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn.

Er nad yw'n orfodol, argymhellir y dylai'r practis (ble'n bosib) gael ystafell ddadheintio bwrpasol, ar wahân ar gyfer sterileiddio offer. Dywedwyd wrthym fod y practis yn bwriadu creu ystafell ddadheintio bwrpasol ar y llawr cyntaf. Gan fod deintyddfa wag ar y llawr daear yn ystod ein harolygiad, gwnaethom awgrymu y gallai'r practis symud yr holl offer dadheintio i'r ddeintyddfa wag, y gellid ei defnyddio fel ystafell bwrpasol yn syth.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried gwahanu'r adnoddau dadheintio oddi wrth yr ardal triniaeth glinigol trwy ddefnyddio'r lle gwag oedd ar gael yn yr adeilad, nes y gellir darparu ystafell wedi ei chynllunio i bwrpas.

Gwelsom fod modelau (gwasgiadau deintyddol o ddannedd) yn cael eu storio mewn blwch cardfwrdd agored o dan y sterileiddiwr. Gwnaethom

³Set o ganllawiau yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a fwriedir i godi safon gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol cynradd

awgrymu y dylai'r practis ystyried dull mwy priodol o storio a fyddai'n osgoi dadheintio posib neu ddifrod i'r eitemau hyn gan ddŵr.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom ar ddiwrnod yr arolygiad fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel a bod rhai systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Gwnaethom nifer o argymhellion ynglŷn â gwella gweithdrefnau gweinyddol y practis.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion y GIG yn bennaf, ond hefyd ar gyfer nifer fach o gleifion preifat. Roedd y practis yn cael ei redeg gan reolwr practis profiadol ac roedd tîm o staff wedi hen sefydlu yn y practis oedd wedi gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal gan staff cyfarwydd.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn credu eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis ac y byddent yn gyfforddus i godi unrhyw bryder a allai fod ganddynt. Roedd tystiolaeth o waith tîm da ac roedd yr holl staff yn deall yn glir beth oedd yn ddisgwyliedig ganddynt. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt gcontractau cyflogaeth. Roedd tystysgrif yn cadarnhau bod y deintydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn cael ei harddangos yn glir yn y dderbynfa. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff clinigol yn meddu ar sicrwydd yswiriant pe byddai claf yn dioddef niwed.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff sicrwydd yswiriant priodol.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, a thystysgrifau cynnal a chadw. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis system glir er mwyn gwneud yn siŵr bod polisiâu a gweithdrefnau'n gyfredol, a gwneud staff yn ymwybodol ohonynt. Gwelsom nad oedd dyddiadau adolygu ar rai polisiâu. Gwelsom hefyd fod mwy nag un fersiwn o'r un polisi yno, oedd yn golygu nad oedd yn amlwg pa fersiwn oedd yn gywir.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, yn hawdd mynd atynt, a bod staff yn ymwybodol ohonynt.

Dywedodd staff eu bod wedi cael eu cefnogi trwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi staff a oedd yn cadarnhau bod staff wedi cwblhau rhywfaint o hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r ffeiliau hyfforddiant bod yr holl hyfforddiant a gwblhawyd wedi cael ei gofnodi. Er enghraifft, roedd crynodebau ysgrifenedig o'r hyfforddiant yr ymgwymerwyd ag ef ond nid oedd y tystysgrifau perthnasol ar gael. Nid oedd cofnodion o hyfforddiant a gwblhawyd ar-lein wedi cael eu hargraffu'n gyson a'u storio yn ffeiliau staff.

Argymhelliad

Dylai cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus pob aelod o staff fod yn gyflawn (gan gynnwys dogfennau tystiolaeth) ac yn gyfredol.

Nid oedd arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal yn y practis. Mae hyn yn golygu nad oedd monitro ffurfiol o ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir gan y staff.

Argymhelliad

Dylid cynnal arfarniadau personol blynyddol ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal tuag unwaith bob dau i bedwar mis. Dywedodd staff wrthym eu bod yn trafod amrywiaeth o destunau. Cawsom enghraifft ganddynt o'r hyn a ddysgir yn y cyfarfodydd hyn. Roedd llawer o apwyntiadau wedi cael eu colli yn y gorffennol, felly penderfynodd y practis ddefnyddio gwasanaeth atgoffa ar ffurf neges destun i gleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod hyn yn llwyddiannus iawn a bod nifer yr apwyntiadau oedd yn cael eu colli wedi lleihau gan dros hanner.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd staff, ond roedd y rhain yn fyr iawn ac nid oedd canlyniadau a chymau gweithredu yn dilyn cyfarfodydd wedi cael eu cofnodi. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis ffurfioli'r cyfathrebu a gwella nodiadau o gyfarfodydd staff, fel y gellir gweld cofnodion clir o drafodaethau.

Roedd gan y practis raglen sefydlu i staff newydd, er bod yr aelod staff mwyaf diweddar wedi dechrau yno ddeng mlynedd yn ôl. Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio yn y practis.

Roedd gan y practis bolisi diogelu i blant a gwelsom dystiolaeth fod staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant, ac eithrio'r hylenydd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod yr hylenydd hefyd yn gweithio mewn practis arall ac efallai ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn trwy'r cyflogydd hwnnw, ond

nid oedd tystysgrif ar gael. Nid oedd polisi na hyfforddiant wedi ei gwblhau gan staff ar amddiffyn oedolion agored i niwed.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy' agored i niwed ac o'r gweithdrefnau lleol y dylid eu dilyn os ydynt yn amau achos o gam-drin.

Nid oedd person penodol yn gyfrifol am gymorth cyntaf ac iechyd a diogelwch yn y practis.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod person penodol yn gyfrifol am gymorth cyntaf.

Roedd tystiolaeth o gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff oedd yn nodi bod eu statws imiwnedd yn ddigonol. Gan fod y cofnodion hyn yn mynd yn ôl i 2005 i'r rhan fwyaf o staff, gwnaethom awgrymu bod staff yn gwirio a oedd angen ail brawf arnynt i gadarnhau eu statws imiwnedd.

Nid oedd cytundeb ffurfiol gyda'r bwrdd iechyd ar gyfer unrhyw gymorth iechyd galwedigaethol i staff fel brechiadau, neu anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom gofnodion yn y llyfr damweiniau bod sawl achos o anaf wedi ei achosi gan offer miniog wedi digwydd yn y pum mlynedd diwethaf. Dylai cymorth iechyd galwedigaethol fod ar waith i sicrhau bod staff yn derbyn gwiriadau priodol ar ôl anafiadau a achosir gan offer miniog er mwyn rhwystro croes heintio cleifion. Gwnaethom hefyd awgrymu fod y practis yn ystyried sut oedd nodwyddau'n cael eu trin er mwyn lleihau'r perygl o anaf.

Argymhelliad

Dylai'r practis wneud trefniadau priodol ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol i staff.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion heb eu datrys hyd yn hyn ac nad oedd y practis wedi derbyn cwyn ysgrifenedig. Gan hynny, nid oedd unrhyw gofnodion o gwynion yn y practis. Dywedodd staff wrthym fod unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu nodi yng nghofnodion electronig cleifion. Gwnaethom argymhell y dylid nodi cwynion gan gleifion ar wahân i'w cofnodion er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw gwynion a dderbynnir yn cael eu cofnodi ar wahân i gofnodion cleifion er mwyn i gleifion deimlo bod rhwydd hynt iddynt gwyno.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Gwnaethom hysbysu'r practis fod un o'r arwyddion uwchben allanfa dân wedi cwmpo.

Lleolir y practis yng nghanol Y Coed Duon yn agos at y brif ardal siopa. Mae gan y practis dair deintyddfa (nid yw un ohonynt yn cael ei defnyddio) gyda dwy ddeintyddfa ar y llawr daear a'r brif ddeintyddfa ar y llawr cyntaf. Mae'r ardal aros a'r dderbynfa ar y llawr daear. Mae llefydd parcio ar gael mewn maes parcio talu ac arddangos gyferbyn â'r practis.

Roedd mynediad i'r adeilad ar ffurf llwybr concrit cul a gris at y drws ffrynt. Roedd gan y practis ramp pren y gellid ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Fe allai'r llwybr cul a drysau safonol yn y practis achosi anawsterau i gadeiriau olwyn mwy, ond dywedodd staff nad oeddent yn ymwybodol o broblemau sylweddol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Dywedodd staff wrthym y gallai cleifion ag anawsterau symudedd gael eu trin yn y ddeintyddfa ar y llawr daear.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad bod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n foddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd gan y practis doiled/ystafell ymolchi staff neillryw ar y llawr cyntaf a thoiled cleifion neillryw ar y llawr daear. Roeddent yn lân ac ynddynt gyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio yn ôl pob golwg. Roedd yr ardal aros o faint priodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd. Roedd dewis o deganau plant yn yr ystafell aros, ond roedd yn cynnwys tegau meddal a doli a fyddai'n anodd eu glanhau i atal croes heintio rhwng cleifion.

Argymhelliad

Dylai unrhyw deganau plant yn yr ystafell aros fod yn addas i gael eu glanhau'n effeithiol er mwyn atal croes heintio.

Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir, a diffoddwyr tân wedi'u harchwilio'n ddiweddar. Fodd bynnag, nid oedd arwydd ar gyfer yr ail allanfa dân yng nghefn yr adeilad trwy'r ddeintyddfa ar y llawr daear i'w weld yn amlwg uwchben y drws (roedd wedi disgyn ar y llawr). Gwelsom hefyd nad oedd un diffoddwr tân bach yn ystafell y staff wedi ei osod yn ddiogel ar y wal nac wedi cael ei archwilio'n ddiweddar. Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai'r diffoddwr tân hwn yn cael ei waredu.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau bod diffoddwyr tân wedi eu harwyddo'n addas a bod unrhyw ddiffoddwyr tân sydd ddim yn cael eu defnyddio'n cael eu gwaredu o'r practis.

Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio mewn ffordd ddiogel, a bod cofnodion electronig yn cael eu cadw wrth gefn bob dydd ar weinydd allanol. Golyga hyn bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch cleifion a'u gwybodaeth. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym fod cynlluniau triniaeth cleifion y GIG a ffeiliau staff yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio y tu ôl i'r dderbynfa ac nad oeddent yn cael eu cloi.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau diogelwch yr holl wybodaeth am gleifion a staff, yn benodol trwy gloi cypyrddau ffeilio er mwyn atal mynediad heb ganiatâd.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r archwiliad hwn, bydd yn rhaid i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Hill View Dental Practice yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Hilltop View Dental Practice

Dyddiad yr Arolygiad: Ionawr 13 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
6	Dylai'r practis sicrhau bod ei wefan yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Ymgynghori â dylunwyr y wefan i ddiwygio'r wefan	Rachel Phillips	2 fis
7	Dylai'r practis ddarparu gwybodaeth hybu iechyd perthnasol i gleifion	Mwy o daflenni ar hybu iechyd i fod ar gael	Simon Rice	Parhaus
7	Dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth y cleifion i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.	Mae blwch awgrymiadau wedi cael ei roi yn y dderbynfa	Simon Rice	Wedi'i wneud
8	Rhaid i'r polisi cwynion i gleifion preifat gynnwys manylion cyswllt AGIC. Dylai polisi cwynion cleifion y GIG gyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus	Manylion cyswllt i gael eu diweddarau ar bolisiau cwynion cleifion y GIG a chleifion preifat.	Simon Rice	Wedi'i wneud

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Cymru. Rhaid i'r polisi cwynion gynnwys enw a manylion cyswllt cywir y bwrdd iechyd.			
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
9	Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo system addas ar gyfer casglu a chofnodi caniatâd deallus, hanes meddygol gan gynnwys hanes cymdeithasol, darparu cynlluniau triniaeth a chofnodi opsiynau triniaeth a drafodwyd â chleifion.	Mae hanes meddygol bellach yn cynnwys cwestiynau ar hanes cymdeithasol ac mae'n cael ei lofnodi gan y claf a'r deintydd. Mae cleifion y GIG a chleifion preifat yn derbyn cynlluniau ac opsiynau triniaeth sy'n cael eu trafod ac yn cael eu nodi yn y cofnodion.	Simon Rice	Wedi'i wneud
10	Dylai'r practis sicrhau y gellir mynd at gofnodion cleifion yn ddibynadwy er mwyn iddynt gael eu cadw'n hollol gyfredol.	Cysylltu â'r cwmni system cyfrifiadurol i drafod problemau gyda chadw nodiadau cleifion.	Rachel Phillips	Parhaus
10	Dylai'r practis feddu ar system gadarn ar gyfer sicrhau diogelwch pob aelod o staff a all gael ei ddatguddio i ymbelydredd.	Mae bathodynau ymbelydredd wedi cael eu harchebu ar gyfer pob nyrs ddeintyddol.	Simon Rice	Wedi'i wneud
10	Dylai'r practis sicrhau trefniadau ar gyfer mynediad rhwydd at offer dadebru a storio meddyginiaeth frys yn ddiogel.	Arwydd "Staff yn unig" ar ddrws yr ystafell y cedwir meddyginiaeth frys ynddi. Bellach yn cael ei storio ar ben bwrdd felly gellir mynd ato'n hawdd.	Simon Rice	Wedi'i wneud
11	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei storio mewn cynwysyddion priodol ac yn cael ei waredu'n brydlon.	Blwch clinigol yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn awr er mwyn gwaredu gwastraff yn briodol.	Simon Rice	Wedi'i wneud

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	Dylai'r practis sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer cynnal a chofnodi profion rheolaidd, ac ar gyfer cynnal a chadw'r holl offer glanhau a sterileiddio. Dylai hyn gynnwys gwiriadau dyddiol ar offer, llyfrau cofnodion gwahanol ar gyfer pob darn o offer a sicrhau y cofnodir cynnal a chadw awtoclafau yn effeithiol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Llyfrau cofnodion wedi eu harchebu ar gyfer pob darn o offer ac i gael eu llenwi'n ddyddiol. Gwiriadau gweledol yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n ddyddiol.	Nyrsys Deintyddol	Wedi'i wneud
12	Dylid ail sterileiddio unrhyw offer sydd heb ei ddefnyddio ar hambyrddau ar ddiwedd y sesiwn clinigol cyn eu defnyddio eto. Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer yn cael ei storio'n briodol, gan gynnwys yr offer yn neintyddfa'r hylenydd.	Yr holl offer sydd heb ei ddefnyddio i gael ei ail sterileiddio cyn ei ddefnyddio ymhellach ac mae'r holl offer yn cael ei storio mewn cypyrddau yn neintyddfa'r hylenydd	Nyrsys Deintyddol	Wedi'i wneud
12	Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn.	Bydd archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal o fewn y ddeufis nesaf	Simon Rice	2 fis
12	Dylai'r practis ystyried gwahanu'r cyfleusterau dadheintio offer o'r ardal triniaeth glinigol trwy ddefnyddio'r lle gwag sydd ar gael yn yr adeilad, nes gellir darparu ystafell wedi ei chynllunio'n bwrpasol.	Ystyried troi'r ddeintyddfa sbâr yn ystafell ddadheintio.	Simon Rice	Parhaus
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
13	Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff clinigol yswiriant priodol	Mae pob aelod o staff clinigol wedi eu hyswrio trwy indemniad Simon Rice gyda Dental Protection	Simon Rice	Wedi'i wneud
13	Dylai'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, yn hawdd mynd atynt, a bod staff yn ymwybodol ohonynt.	Polisiau i gael eu hadolygu bob 3 mis.	Rachel Phillips	Wedi'i wneud
14	Dylid cwblhau cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus i'r holl staff (gan gynnwys tystiolaeth ar ffurf dogfennau) a dylent fod yn gyfredol.	Yr holl staff i gael eu hysbysu ac i'w cwblhau yn ôl yr angen.	Lisa White	Wedi'i wneud
14	Dylid cynnal arfarniadau bob blwyddyn ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis.	Dylid cynnal arfarniadau blynyddol i bob aelod o staff	Simon Rice	3 mis
15	Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r gweithdrefnau lleol y dylid eu dilyn os ydynt yn amau achos o gam-drin.	Mae'r cwrs amddiffyn plant wedi'i gwblhau. Yn ymchwilio cyrsiau ôl-raddedig sydd ar gael ar gyfer oedolion agored i niwed ac ar-lein fel yr argymhellir y Bwrdd Iechyd Lleol.	Simon Rice	Parhaus
15	Dylai'r practis sicrhau bod person penodol yn gyfrifol am gymorth cyntaf.	Simon Rice yn mynychu cwrs Cymorth CYNTAF I AIL DDILYSU	Simon Rice	Wedi'i wneud
15	Dylai'r practis wneud trefniadau addas ar	Mae'r holl staff yn gwirio statws Hep B a'r polisi ar	Lisa White	Parhaus

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gyfer cymorth iechyd galwedigaethol i staff.	gyfer trefniadau'n dilyn anafiadau a achosir gan nodwyddau		
15	Dylai'r practis sicrhau fod unrhyw gwynion a dderbynnir yn cael eu cofnodi ar wahân i gofnodion cleifion er mwyn i gleifion deimlo bod rhwydd hynt iddynt gwyno.	Pob cwyn a dderbynnir i gael ei gadw mewn ffeil ar wahân	Lisa White	Wedi'i wneud
Ansawdd yr Amgylchedd				
16	Dylai unrhyw deganau plant yn yr ystafell aros fod yn addas i gael eu glanhau'n effeithiol er mwyn atal croes heintio.	Dylid gwaredu pob tegau na ellir ei lanhau'n effeithiol	Lisa White	Wedi'i wneud
16	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob allanfa dân wedi ei arwyddo'n briodol a bod unrhyw ddiffoddwyr tân sydd ddim yn cael eu defnyddio'n cael eu tynnu o'r practis.	Mae arwyddion ar bob allanfa dân ac mae diffoddwyr tân sydd ddim yn cael eu defnyddio'n cael eu gwaredu	Lisa White	Wedi'i wneud
17	Rhaid i'r practis sicrhau diogelwch gwybodaeth pob claf ac aelod o staff, yn benodol trwy gloi cypyrddau ffeilio er mwyn atal mynediad heb ganiatâd.	Pob cwpwrdd ffeilio i gael eu cloi ar ddiwedd pob dydd	Lisa White	Wedi'i wneud

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch): SIMON RICE.....

Teitl: DR.....

Llofnod: [Cyflwynwyd yn electronig].....

Dyddiad: 26/02/2015.....